

Y Refferendwm

Ateb eich cwestiynau

AGORWYD GAN Y MAWRHYD DROENHINES
OPENED BY HER MAJESTY THE QUEEN ON 13-2006

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

01

Refferendwm ar bwerau deddfu Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Ar hyn o bryd, mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru bwerau i ddeddfu ar gyfer Cymru ar rai pynciau o fewn yr 20 maes datganoledig isod. Caiff y Cynulliad ennill mwy o bwerau i ddeddfu yn y meysydd hynny trwy gael cytundeb Senedd y DU, a hynny fesul pwnc.

Os bydd y rhan fwyaf o bobl yn pleidleisio 'ydw' yn y refferendwm hwn, bydd y Cynulliad yn ennill pwerau i ddeddfu ar bob pwnc yn y meysydd sydd wedi'u datganoli heb fod angen cytundeb Senedd y DU yn gyntaf. Os bydd y rhan fwyaf yn pleidleisio 'nac ydw', yna bydd y trefniadau presennol yn parhau.

Gall y Cynulliad ddeddfu yn yr 20 maes isod:

- 01 Amaethyddiaeth, pysgodfeydd, coedwigaeth a datblygu gwledig
- 02 Henebion ac adeiladau hanesyddol
- 03 Diwylliant
- 04 Datblygu economaidd
- 05 Addysg a hyfforddiant
- 06 Yr amgylchedd
- 07 Gwasanaethau tân ac achub a hybu diogelwch rhag tân
- 08 Bwyd
- 09 Iechyd a gwasanaethau iechyd
- 10 Priffyrdd a thrafnidiaeth
- 11 Tai
- 12 Llywodraeth leol
- 13 Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- 14 Gweinyddiaeth gyhoeddus
- 15 Lles cymdeithasol
- 16 Chwaraeon a hamdden
- 17 Twristiaeth
- 18 Cynllunio gwlad a thref
- 19 Dŵr ac amddiffyn rhag llifogydd
- 20 Y Gymraeg

Cwestiynau Cyffredin

A fydd y refferendwm hwn yn cynyddu'r meysydd polisi y gall y Cynulliad ddeddfu ynddynt?	03
Pryd y caiff y refferendwm ei gynnal?	04
Beth fydd y cwestiwn a ofynnir yn y refferendwm?	04
O dan y system bresennol, sut y mae Senedd y DU yn rhoi awdurdod i'r Cynulliad ddeddfu?	05
Beth yn union fydd yn digwydd os bydd y Cynulliad yn gofyn am awdurdod i newid y gyfraith?	05
Pe bai pleidlais gadarnhaol, sut y byddai'r Cynulliad Cenedlaethol yn deddfu?	06
A fydd yn arwain at gynnydd yn nifer yr Aelodau Cynulliad?	06
A fyddai'n costio mwy?	06

Mewn egwyddor, gall y Cynulliad Cenedlaethol ddeddfu ar gyfer Cymru yn yr 20 maes ar y dudalen gyntaf y cyfeirir atynt fel 'meysydd polisi'. Gellir rhannu'r meysydd hyn yn rhai mwy manwl, a chyfeirir at y rhain fel 'materion'. Cyn bod y Cynulliad yn gallu deddfu yn unrhyw un o'r 20 maes, rhaid bod Senedd y DU yn San Steffan wedi cytuno bod y Cynulliad yn gallu deddfu ar y mater perthnasol.

Felly, er enghraifft, mae'r Cynulliad ar hyn o bryd yn edrych yn fanwl ar gynnig i newid y gyfraith er mwyn ei gwneud yn haws i leihau'r gwastraff a'r sbwriel a gynhyrchir yng Nghymru. 'Yr amgylchedd' (sy'n cynnwys gwastraff a sbwriel) yw un o'r 20 maes polisi y gall y Cynulliad, mewn egwyddor, ddeddfu ynddo.

Ym mis Mehefin 2007, gofynnodd Llywodraeth Cymru i Senedd y DU drosglwyddo'r pŵer i ddeddfu ar y mater penodol o atal gwastraff a lleihau'r gwastraff a gynhyrchir yng Nghymru. Ar ôl i'r Cynulliad a Senedd y DU graffu ar y mater ac ar ôl cyfnod o drafod rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ynghylch yr union bwerau a fyddai'n cael eu trosglwyddo i'r Cynulliad, cytunodd Senedd y DU ar y cais ym mis Chwefror 2010. Yn sgil hyn, roedd y Cynulliad yn gallu dechrau gwneud y ddeddfwriaeth angenrheidiol.

Mae'r refferendwm hwn yn gofyn a yw pobl Cymru'n credu y dylai San Steffan roi'r awdurdod i'r Cynulliad ddeddfu ym mhob un o'r 20 maes polisi ar unwaith yn hytrach na'r system bresennol o orfod gofyn am y pŵer, neu ei gael, bob yn dipyn.

A fydd y refferendwm hwn yn cynyddu'r meysydd polisi y gall y Cynulliad ddeddfu ynddynt?

Na. Dim ond yn yr 20 maes pwnc y bydd y Cynulliad yn gallu deddfu o hyd.

Mae'r refferendwm yn gofyn a ddylem gadw at y system bresennol lle y bydd San Steffan yn rhoi'r awdurdod i'r Cynulliad ddeddfu un darn ar y tro, neu lle y bydd awdurdod llawn yn cael ei roi i'r Cynulliad ddeddfu yn yr 20 maes datganoledig unwaith ac am byth.

Pryd y caiff y refferendwm ei gynnal?

Bydd y refferendwm yn cael ei gynnal ddydd lau
03 Mawrth 2011.

Beth fydd y cwestiwn a ofynnir yn y refferendwm?

Dyma'r datganiad a fydd yn ymddangos cyn y cwestiwn
ar y papurau pleidleisio, yn Gymraeg ac yn Saesneg:

Cynulliad Cenedlaethol Cymru: yr hyn sy'n digwydd ar hyn o bryd.

Mae gan y Cynulliad bwerau i ddeddfu mewn 20 maes
pwnc, fel:

- amaethyddiaeth;
- iechyd;
- addysg;
- tai;
- yr amgylchedd;
- llywodraeth leol.

Mae'r Cynulliad yn gallu deddfu ar rai materion ym mhob
maes pwnc ond nid ar faterion eraill. Er mwyn deddfu ar
unrhyw un o'r materion eraill hyn, mae'n rhaid i'r Cynulliad
ofyn am gytundeb Senedd y DU. Yna, bydd Senedd y DU
yn penderfynu bob tro a gaiff y Cynulliad ddeddfu ar y
mater hwnnw neu beidio.

Ni all y Cynulliad ddeddfu mewn meysydd pwnc fel amddiffyn,
trethi neu fudd-daliadau lles, beth bynnag fydd canlyniad y
bleidlais hon.

Os bydd y rhan fwyaf o bleidleiswyr yn pleidleisio 'ydw', bydd
y Cynulliad yn gallu deddfu ar bob mater yn yr 20 maes pwnc
y mae ganddo bwerau ynddynt, heb orfod cael cytundeb
Senedd y DU.

Os bydd y rhan fwyaf o bleidleiswyr yn pleidleisio 'nac ydw',
bydd yr hyn sy'n digwydd ar hyn o bryd yn parhau.

Dyma'r cwestiwn a fydd ar y papurau pleidleisio yn Gymraeg
ac yn Saesneg:

A ydych yn dymuno i'r Cynulliad allu llunio deddfau ar bob
mater yn yr 20 maes pwnc y mae ganddo bwerau ynddynt?

O dan y system bresennol, sut y mae Senedd y DU yn rhoi awdurdod i'r Cynulliad ddeddfu?

Ceir dwy ffordd:

- (i) drwy basio Deddfau Seneddol sy'n trosglwyddo pwerau
penodol i'r Cynulliad; neu
- (ii) drwy gymeradwyo Gorchymynion Cymhwysedd
Deddfwriaethol sef ceisiadau gan y Cynulliad ei hun
i drosglwyddo pŵer.

Beth yn union fydd yn digwydd os bydd y Cynulliad yn gofyn am awdurdod i newid y gyfraith?

Bydd un o bwyllgorau'r Cynulliad a sawl pwyllgor Senedd y
DU yn edrych yn fanwl ar y cais i ddechrau. Eu gwaith hwy yw
ystyried a oes achos wedi'i wneud dros drosglwyddo pŵer. Gall
y pwyllgorau hefyd wneud argymhellion ynghylch ffyrdd posibl
o wella manylion y trosglwyddo arfaethedig.

Yna cyflwynir cynnig terfynol i'r Cynulliad, Tŷ'r Cyffredin
a Thŷ'r Arglwyddi i gael ei gymeradwyo'n ffurfiol, a bydd pob
un o'r tair siambr yn pleidleisio ar y Gorchymyn Cymhwysedd
Deddfwriaethol drafft. Os caiff ei gymeradwyo gan y tair, caiff
y Gorchymyn ei wneud yn ffurfiol a chaiff y pŵer i ddeddfu
ar y mater hwnnw ei drosglwyddo i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Mae cyfnod y broses hon yn amrywio o gais i gais. Mae'r
cyfnod hwn wedi amrywio o ddeg mis i 32 mis ar gyfer y rheini
a ystyriwyd hyd yn hyn, a'r cyfnod arferol yw tua blwyddyn.

Byddai'r system hon yn parhau hyd yn oed pe bai
canlyniad y refferendwm yn negyddol. Byddai'r Cynulliad yn
gallu newid y gyfraith mewn meysydd penodol o hyd lle y bo'r
pŵer i wneud hynny eisoes wedi'i drosglwyddo, ac yn gallu
parhau i wneud cais am ragor o bwerau, bob yn dipyn, yn ôl
yr angen i newid y gyfraith yn y meysydd hyn.

Pe bai pleidlais gadarnhaol, sut y byddai'r Cynulliad Cenedlaethol yn deddfu?

Os bydd y refferendwm yn arwain at bleidlais gadarnhaol, byddai'r opsiwn arall ar gyfer pwerau deddfu a bennir yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 yn dod i rym.

O dan y model amgen hwn, byddai'r 20 maes polisi eang yn parhau yr un fath ond byddai'r Cynulliad yn rhydd, o'r diwrnod cyntaf, i ddeddfu o fewn ffiniau'r meysydd datganoledig hynny heb orfod gofyn i San Steffan am yr awdurdod i wneud y cyfreithiau hynny.

Felly, y dewis i'w wneud yn y refferendwm yw a ddylai'r Cynulliad:

- aros fel y mae ar hyn o bryd – ei fod yn gallu cael pwerau i newid y gyfraith, ond bob yn dipyn, os yw senedd y DU yn cytuno ar hynny; neu
- symud yn hytrach i sefyllfa lle y gall ddeddfu heb fod angen cael cymeradwyaeth Senedd y DU am y pŵer i wneud hynny yn gyntaf.

A fydd yn arwain at gynydd yn nifer yr Aelodau Cynulliad?

Byddai angen deddfwriaeth newydd sbon gan Senedd y DU yn San Steffan er mwyn gwneud unrhyw newid i nifer yr Aelodau yn y Cynulliad. Nid oes a wnelo'r refferendwm ddim â nifer yr Aelodau Cynulliad.

A fyddai'n costio mwy?

Byddai'n dileu llawer o'r camau y mae angen eu cymryd ar hyn o bryd cyn y gall y Cynulliad ddeddfu. Mae cost yn gysylltiedig â phob un o'r camau hynny o ran amser ac adnoddau Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, y Cynulliad a'r gymdeithas ddinesig.

Roedd y dystiolaeth a gyflwynwyd i Gonfensiwn Cymru Gyfan yn awgrymu y byddai pleidlais gadarnhaol, yn gyffredinol, yn debygol o fod yn niwtral yn ariannol o safbwynt Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru. Yn Whitehall, dylai swm bach, ond amhosibl ei gyfrifo, o adnoddau gael ei ryddhau pe na bai angen ystyried Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol mwyach.

Yn y Cynulliad Cenedlaethol

Mae tua hanner yr amser y mae'r Cynulliad wedi bod yn craffu ar ddeddfwriaeth hyd yn hyn wedi'i dreulio ar Orchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol, a'r hanner arall ar Fesurau. O dan system wahanol, byddai modd naill ai arbed yr adnoddau a oedd yn sail i'r gwaith hwnnw neu eu defnyddio ar gyfer pethau eraill. Yn eu tystiolaeth i Gonfensiwn Cymru Gyfan, dywedodd uwch aelodau o staff sy'n gyfrifol am ddarparu'r gwasanaethau hynny fod gan y Cynulliad ddigon o staff i gynorthwyo Aelodau wrth graffu ar ddeddfwriaeth o dan y naill system neu'r llall. Dywedwyd na fyddai gan y Cynulliad broblemau capasiti a fyddai'n ei atal rhag delio â chanlyniadau pleidlais gadarnhaol os mai dyna fydd dymuniad pobl Cymru.

Yn Llywodraeth Cymru

Yn ei thystiolaeth i Gonfensiwn Cymru Gyfan, amcangyfrifodd Llywodraeth Cymru mai tua dwy filiwn oedd cost y polisiau a'r amser a gafodd ei dreulio gan swyddogion cyfreithiol i gael pwerau drwy Orchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol neu Fesurau Seneddol yn 2008/09. Ni fyddai angen y gwaith hwn pe bai pleidlais gadarnhaol yn y refferendwm er ei fod yn debygol y byddai unrhyw arian a gaiff ei arbed yn cael ei drosglwyddo i lunio polisiau a drafftio Biliau Cynulliad.

Yn Adrannau Llywodraeth Whitehall

Gallai pleidlais gadarnhaol arwain at rywfaint o arbedion yn Whitehall. Byddai ymwneud Swyddfa Cymru â Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol yn dod i ben er y byddai ei rôl monitro yn parhau o ran deddfwriaeth sylfaenol y Cynulliad. Ni fyddai angen i swyddogion Whitehall, sydd ar hyn o bryd yn ystyried Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol drafft sy'n ymwneud â maes eu Hadrannau, wneud hynny. Ni fu'n bosibl i Gonfensiwn Cymru Gyfan gyfrifo'r arbedion a oedd yn deillio o hynny, am nad oedd data ar amser a dreulir ar gael, ac mae pob Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol yn wahanol.